TGAU

TGAU CBAC

# CELF A DYLUNIO

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

Addysgu o 2016



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w addysgu o 2016
I'w ddyfarnu o 2018

# TGAU CBAC mewn CELF a DYLUNIO

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

© WJEC CBAC Ltd.

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | 4 |
| Amcanion Asesu, Pwysoli a Marciau | 4 |
| Cynlluniau Marcio ac Awgrymiadau ar gyfer y Cynnwys | 4 |
| **Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol** | 5 |
| Themâu | 8 |
| Aseiniadau Gweledol | 9 |
| Briffiau Ysgrifenedig | 14 |
| Cyfeiriadau Cyd-destunol | 16 |
| **Cynlluniau Marcio** | |
| Uned 1: Portffolio | 17 |
| Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol | 19 |
| **Cynnwys a Awgrymir ar gyfer pob teitl (Unedau 1 a 2)** | |
| Celf, Crefft a Dylunio | 21 |
| Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) | 23 |
| Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) | 25 |
| Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) | 27 |
| Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) | 29 |
| Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) | 31 |
| Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) | 33 |
| **Dogfennau Asesu** | 35 |
| **Atodiadau** | |
| A: Dogfennau dilysu a 'Fy Natganiad Creadigol' (enghreifftiau) | 36 |
| B: Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr (enghraifft) | 40 |

© WJEC CBAC Ltd.

## Rhagarweiniad

Ceir yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol hyn:
- gynllun marcio ar gyfer Uned 1, y Portffolio
- enghraifft o'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, Uned 2, a'i gynllun marcio cysylltiedig
- awgrymiadau ar gyfer y cynnwys mewn perthynas â'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Uned 1 ac Uned 2
- enghreifftiau o'r dogfennau dilysu a 'Fy Natganiad Creadigol' ar gyfer Unedau 1 a 2
- enghraifft o'r rhestr wirio amcanion asesu i fyfyrwyr, sy'n ymwneud â'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Uned 1 ac Uned 2.

Mae Uned 1, y Portffolio, yn cael ei phenderfynu gan y myfyriwr a'r athro, ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Mae Uned 2, yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, yn cael ei gosod gan CBAC, ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.

### Amcanion asesu, pwysoli a marciau

Mae pedwar amcan asesu ac maent hwy'n berthnasol i'r ddwy uned. Mae gan bob amcan asesu yr un pwysoli. Mae'r amcanion asesu ar gyfer y fanyleb hon i'w gweld isod. Rhaid i ddysgwyr ddangos eu gallu i:

| | |
|---|---|
| **AA1**<br>**Dealltwriaeth feirniadol** | Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau. |
| **AA2**<br>**Gwneud creadigol** | Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. |
| **AA3**<br>**Cofnodi myfyriol** | Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. |
| **AA4**<br>**Cyflwyno personol** | Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol. |

Sylwer: Mae penawdau'r amcanion asesu wedi'u darparu gan CBAC i gynorthwyo athrawon a myfyrwyr.

Yn y tabl isod dangosir pwysoli a marciau pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1: Portffolio**<br>Pwysoli 60%<br>120 marc | 15%<br>30 marc | 15%<br>30 marc | 15%<br>30 marc | 15%<br>30 marc |
| **Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**<br>Pwysoli 40%<br>80 marc | 10%<br>20 marc | 10%<br>20 marc | 10%<br>20 marc | 10%<br>20 marc |
| **Cyfanswm y pwysoli 100%**<br>**Cyfanswm y marciau (200)** | **25%**<br>**50 marc** | **25%**<br>**50 marc** | **25%**<br>**50 marc** | **25%**<br>**50 marc** |

### Cynlluniau marcio ac awgrymiadau ar gyfer y cynnwys

Dylai athrawon ddefnyddio'r cynlluniau marcio i asesu cyflawniadau'r dysgwyr mewn perthynas â phob un o'r pedwar amcan asesu. Bydd marciau'n cael eu dyfarnu trwy gyplysu perfformiad yr ymgeisydd mewn perthynas â phob amcan asesu ag un o'r disgrifwyr perfformiad, ac yna benderfynu i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi llwyddo i fodloni'r meini prawf yn ei waith. Dylai athrawon benderfynu ar farc ar gyfer pob amcan asesu ac yna adio'r marciau i ddarparu cyfanswm ar gyfer yr holl unedau. Ceir arweiniad ychwanegol yn yr awgrymiadau ar gyfer y cynnwys, y rhestr wirio amcanion asesu, a'r deunyddiau enghreifftiol ar-lein sy'n cael eu diweddaru bob blwyddyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**TGAU**

**CELF a DYLUNIO**

**UNED 2**

**Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**

**ENGHRAIFFT**

**Rhaid rhyddhau'r papur aseiniad hwn i'r ymgeiswyr ar 2 Ionawr neu wedi hynny.**

**CYFNOD ASTUDIO PARATOADOL**

*Y ganolfan fydd yn penderfynu ar ddyddiadau cychwyn a gorffen y cyfnod astudio paratoadol. Mae angen i'r ganolfan gymryd i ystyried amserlennu'r 10 awr o waith dwys a manwl a'r angen i gyflwyno marciau wedi'u hasesu'n fewnol i CBAC erbyn mis Mai.*

**GWAITH DWYS A MANWL**
**10 awr dan amodau arholiad wedi'i oruchwylio.**
Rhaid i'r ganolfan gofnodi'r sesiynau.
Rhaid i waith a gynhyrchir yn ystod y cyfnod hwn gael ei nodi'n glir yn y gwaith a gyflwynir.

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

- Defnyddiau celf, crefft a dylunio priodol.
- Dogfennau dilysu gorfodol, sy'n cynnwys datganiad creadigol.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

- Mae **15** aseiniad posibl yn y papur hwn. **Dewiswch UN aseiniad yn unig.**
- Mae **5** aseiniad sydd wedi'u seilio ar themâu, **5** aseiniad sy'n cynnwys ysgogiadau gweledol a **5** aseiniad sydd wedi'u seilio ar friffiau ysgrifenedig, y mae pob un ohonynt yn cwmpasu'r opsiynau canlynol:

  Celf, Crefft a Dylunio
  Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)
  Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)
  Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)
  Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)
  Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)
  Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol).

© WJEC CBAC Ltd.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR (PARHAD)**

**Teitlau sydd wedi'u Dewis**

- Os ydych chi wedi dewis y teitl Celf, Crefft a Dylunio, cewch weithio mewn unrhyw ddisgyblaeth(au) sy'n gysylltiedig ag unrhyw deitl(au) eraill sydd wedi'u rhestru.
- Os ydych chi wedi dewis un o'r teitlau eraill, rhaid i chi weithio yn y disgyblaethau sy'n gysylltiedig â'ch teitl. Er enghraifft, os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer Dylunio Tecstilau, dylech weithio'n bennaf trwy gyfrwng/disgyblaeth Tecstilau.
- Os yw'r rhan fwyaf o'ch gwaith yn ddigidol, er enghraifft ym maes Cyfathrebu Graffig neu Ffotograffiaeth, cofiwch fod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth glir o'ch meddwl creadigol yn ystod pob cam pwysig o'r broses ddatblygu.
- Cewch ddyfeisio briffiau neu senarios wedi'u gyrru gan glient ar gyfer unrhyw aseiniad, a all gael eu cymhwyso yn y cyd-destun a'r ddisgyblaeth rydych chi'n gweithio o'u mewn. O dan amgylchiadau o'r fath, dylech ymgynghori â'ch athro/athrawes, i sicrhau bod briffiau o'r fath yn addas, bod modd cyrchu adnoddau, ac ati.
- Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer Dylunio Tri Dimensiwn dylech gymryd materion ymarferol a gweithredol i ystyriaeth, yn ogystal ag ystyriaethau esthetig. Gall gweithiau terfynol fod ar ffurf darnau gorffenedig, prototeipiau neu fodelau maint llawn neu wrth raddfa. Gallent fod yn ddarnau unigryw neu'n ddarnau y gellir eu swp-gynhyrchu neu eu masgynhyrchu.

**Y Cyfnodau Astudio Paratoadol a Gwaith Dwys a Manwl**

- Bydd y cyfnod astudio paratoadol a'r gwaith dwys a manwl yn cael eu goruchwylio gan y ganolfan i sicrhau mai chi a neb arall sydd wedi gwneud yr holl waith. Rhaid i chi fynd â'r holl ddeunydd paratoi, rydych chi'n ystyried ei gyflwyno, i'r man lle byddwch chi'n gweithio pan ddechreuwch y cyfnod 10 awr o waith dwys. Ni chewch ychwanegu at eich gwaith paratoi ar ôl i'r 10 awr o waith dwys a manwl ddechrau.
- Ar ôl i chi ddechrau eich gwaith dwys a manwl o dan amodau arholiad wedi'i oruchwylio, bydd eich gwaith, gan gynnwys eich holl ddeunydd paratoi, yn cael ei gadw gan y ganolfan. **Ni fyddwch** yn gallu mynd at y gwaith hwn y tu allan i'r sesiynau gwaith dwys a manwl dynodedig.
- Ar ôl cwblhau'r cyfnodau o baratoi a gwaith dwys a manwl, dylech ddewis, cyflwyno a gwerthuso eich deunydd a'i gyflwyno i gael ei farcio gan y ganolfan. Dylai eich ymateb eich galluogi i ddangos eich gallu i ddatblygu trywydd ymresymu cyson sy'n berthnasol, wedi'i gefnogi'n dda gan dystiolaeth, ac yn gydlynol.
- Ni chewch weld deunyddiau paratoi unrhyw fyfyriwr arall.

**Paratoi ar gyfer asesu**

- Mae gofyn i chi esbonio sut rydych chi wedi ymdrin â'r aseiniad yn y ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol'. Dylech gyflwyno'r ddogfen hon gyda'ch gwaith, gan ei bod hi'n bosibl y bydd yn fuddiol i'r broses safoni, ac oherwydd y cyfeirir ati pan gaiff eich gwaith ei asesu.
- Cofiwch **lofnodi a dyddio** adran **ddilysu**'r ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' i gadarnhau mai chi a neb arall sydd wedi gwneud yr holl waith sy'n cael ei gyflwyno neu i roi eithriadau priodol.
- **Rhaid** i bob darn o waith gael ei labelu'n glir ag enwau a rhifau'r ganolfan a'r ymgeisydd. Rhaid i'r gwaith a gynhyrchwch yn ystod y cyfnodau dwys a manwl gael ei nodi'n glir yn y gwaith a gyflwynwch.

© WJEC CBAC Ltd.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn werth 40% o gyfanswm y marciau ar gyfer TGAU.
- Nid oes angen i'r canlyniad fod yn ddarn gorffenedig o waith ond dylech gwblhau digon ohono i ddangos y byddech chi'n gallu dod â'r aseiniad i ddatrysiad terfynol. Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer mwy nag un teitl, **rhaid** i chi ymgymryd ag aseiniad gwahanol ar gyfer pob un.
- Rhaid cydnabod pob deunydd o ffynonellau eilaidd yn briodol. Peidiwch â dwyn syniadau pobl eraill a byddwch yn ddyfeisgar a chreadigol wrth ddefnyddio deunyddiau atodol. Os ydych chi'n cynnwys gwaith sydd **heb** gael ei gynhyrchu'n gyfan gwbl gennych chi, megis dyfyniadau a delweddau sydd wedi cael eu cynhyrchu gan bobl eraill, mae'n **hanfodol** i chi nodi a chydnabod pob un o'r rhain yn benodol yn eich gwaith ac fel eithriad yn y ddogfen ddilysu. Os methwch â datgelu eithriadau, gall y canlyniadau fod yn ddifrifol
- Dylech gofnodi eich syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a barnau annibynnol trwy gyfrwng sylwebaeth ysgrifenedig yn ogystal ag yn weledol. Cewch ddefnyddio anodi neu ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu i ddangos sut rydych chi wedi bodloni unrhyw un o'r amcanion asesu neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Dylai eich dull ysgrifennu fod yn addas i'r pwrpas, darllenadwy, clir a rhesymegol a dylech ddefnyddio geirfa arbenigol pan fo'n briodol.

**ARWEINIAD I YMGEISWYR**

- Bydd eich gwaith yn cael ei farcio yn erbyn y pedwar amcan asesu (gweler y tabl isod). Mae'r 'Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr' a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys hefyd yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y mathau o dystiolaeth y dylech eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl rydych chi wedi'ch cofrestru ar ei gyfer. Mae'r 'Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr', yr awgrymiadau ar gyfer y cynnwys a'r cynlluniau marciau i'w cael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, ac fel dogfennau ar wahân ar y wefan. Mae'r rhestr wirio amcanion asesu a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys yn berthnasol i'ch Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylech gyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod eich gwaith. Dylech sicrhau eich bod chi wedi darparu tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu a bod hyn yn cael ei ddangos a'i gyflwyno'n glir yn eich aseiniad.

| | |
|---|---|
| **AA1**<br>**Dealltwriaeth feirniadol** | Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau. |
| **AA2**<br>**Gwneud creadigol** | Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. |
| **AA3**<br>**Cofnodi myfyriol** | Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. |
| **AA4**<br>**Cyflwyno personol** | Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol. |

© WJEC CBAC Ltd.

**THEMÂU**

Gall y pum aseiniad thematig canlynol gael eu defnyddio gennych i archwilio'ch syniadau eich hun. Dylech ddefnyddio astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â'ch ymchwil personol eich hun a chyfeiriadau eraill, i'ch helpu i ddatblygu eich syniadau.

**Dewiswch UN o'r themâu hyn a gwnewch ymateb gweledol a/neu gyffyrddol sy'n dangos eich bod chi wedi archwilio ac wedi arbrofi gydag amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau sy'n berthnasol i'r maes astudio rydych chi wedi'i ddewis.**

Ar dudalen olaf y papur aseiniad hwn mae rhestr o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr. Gall y cyfeiriadau yn y rhestr hon fod yn fannau cychwyn defnyddiol ar gyfer eich ymchwil a'ch syniadau creadigol, yn ymwneud â'r Thema, Aseiniad Gweledol neu Friff Ysgrifenedig o'ch dewis. Ond does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhestr hon ac mae'n bosibl y bydd yn well gennych ddewis eich cyfeiriadau priodol eich hun.

Dylech ddatblygu eich aseiniad ar ffurf ymateb personol, briff dylunio penodol neu ffurf addas arall.

**Os nad ydych chi eisiau gweithio ag unrhyw un o'r themâu hyn, ewch i'r adran nesaf, Aseiniadau Gweledol.**

1. **Amser yn mynd heibio**

2. **Treftadaeth**

3. **Llwybrau a thraciau**

4. **Croesi**

5. **Mynd tuag adref**

© WJEC CBAC Ltd.

**ASEINIADAU GWELEDOL**

Gall y pum delwedd ac ysgogiad canlynol gael eu defnyddio gennych i archwilio'ch syniadau eich hun. Dylech ddefnyddio astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â'ch ymchwil personol eich hun a chyfeiriadau eraill, i'ch helpu i ddatblygu eich syniadau.


**Dewiswch UN o'r aseiniadau hyn a gwnewch ymateb gweledol a/neu gyffyrddol sy'n dangos eich bod chi wedi archwilio ac wedi arbrofi gydag amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau sy'n berthnasol i'r maes astudio rydych chi wedi'i ddewis.**

Ar dudalen olaf y papur aseiniad hwn mae rhestr o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr. Gall y cyfeiriadau yn y rhestr hon fod yn fannau cychwyn defnyddiol ar gyfer eich ymchwil a'ch syniadau creadigol, yn ymwneud â'r Thema, Aseiniad Gweledol neu Friff Ysgrifenedig o'ch dewis. Ond does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhestr hon ac mae'n bosibl y bydd yn well gennych ddewis eich cyfeiriadau priodol eich hun.

Nid copïo'r delweddau yw'r bwriad. Dylech eu defnyddio fel *ysgogiad* i'ch helpu i ddatblygu'ch syniadau eich hun. Dylech ddatblygu eich aseiniad ar ffurf ymateb personol, briff dylunio penodol neu ffurf addas arall.

**Os nad ydych chi eisiau gweithio ag unrhyw un o'r themâu hyn, ewch i'r adran nesaf, Briffiau Ysgrifenedig.**

**6.**



©Helen Sear, The Company of Trees, 2015 *Comisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Ffotogallery ar gyfer Cymru yn Fenis/Wales* yn *Venice la Biennale di Venezia 2015.*

Efallai yr hoffech chi ystyried y berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol.

© WJEC CBAC Ltd.

**7.**





Gallech gymryd eich ysbrydoliaeth o liwiau, patrymau a gweadau cyrydiad a dadfeiliad.

© WJEC CBAC Ltd.

**8.**








*Delwedd uchaf ar y chwith, gyda chydnabyddiaeth i Carol Gwizdak, dylunydd/gwneuthurwr gemwaith..*

Gallech gymryd eich ysbrydoliaeth o’r amrywiaeth o ffurfiau bregus sydd o’n cwmpas.

© WJEC CBAC Ltd.

**9.**




Gallech feddwl am y ffyrdd dyfeisgar y bydd pobl yn cadw atgofion a phrofiadau personol.

© WJEC CBAC Ltd.

**10.**



Efallai yr hoffech chi ystyried sut gall gwrthrychau ac adeiladweithiau pob dydd gael eu newid mewn ffyrdd annisgwyl.

© WJEC CBAC Ltd.

**BRIFFIAU YSGRIFENEDIG**

Gall y pum briff ysgrifenedig canlynol gael eu defnyddio gennych i archwilio'ch syniadau eich hun. Dylech ddefnyddio astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â'ch ymchwil personol eich hun a chyfeiriadau eraill, i'ch helpu i ddatblygu eich syniadau.

**Dewiswch UN o'r briffiau hyn a gwnewch ymateb gweledol a/neu gyffyrddol sy'n dangos eich bod chi wedi archwilio ac wedi arbrofi gydag amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau sy'n berthnasol i'r maes astudio rydych chi wedi'i ddewis.**

Ar dudalen olaf y papur aseiniad hwn mae rhestr o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr. Gall y cyfeiriadau yn y rhestr hon fod yn fannau cychwyn defnyddiol ar gyfer eich ymchwil a'ch syniadau creadigol, yn ymwneud â'r Thema, Aseiniad Gweledol neu Friff Ysgrifenedig o'ch dewis. Ond does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhestr hon ac mae'n bosibl y bydd yn well gennych ddewis eich cyfeiriadau priodol eich hun.

Prif ganolbwynt y briff yw'r teitl. O dan y teitl gwelwch ganllawiau dewisol mae'n bosibl yr hoffech chi eu hystyried. Dylech ddatblygu eich gwaith ar ffurf ymateb personol, briff dylunio penodol neu ffurf addas arall.

## 11.

| **Archwiliwch y syniad o ailadrodd** |
|---|
| Bydd artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr yn aml yn archwilio ailadrodd er mwyn cynhyrchu ffurfiau diddorol ar gelf, crefft a dylunio. Gall gwaith o'r fath gynnwys archwilio patrymau sy'n cael eu creu trwy ailadrodd delweddau, ffurfiau llythrennau neu wrthrychau tri dimensiwn; chwarae gyda graddfa, afluniad, lliw neu gyfres gan ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau a phrosesau.<br><br>Gan gymryd eich ysbrydoliaeth o'r syniad o ailadrodd, datblygwch eich gwaith celf, crefft neu ddylunio eich hun sy'n gallu bod ar unrhyw ffurf. |

## 12.

| **Ymchwiliwch i seremonïau a defodau** |
|---|
| Ers amser maith bu artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr yn newid neu atgyfnerthu golwg pobl a gwrthrychau o'u cwmpas at ddibenion seremonïol neu ddefodol.<br><br>Ymchwiliwch i'r gwisgoedd, arteffactau a lleoedd seremonïol a thraddodiadol sy'n cael eu defnyddio gan ddiwylliant neu ddiwylliannau o'ch dewis a chynhyrchwch waith celf, crefft neu ddylunio sydd wedi'i ysbrydoli gan eich astudiaeth. |

© WJEC CBAC Ltd.

## 13.

| **Gwnewch ymateb dramatig i'ch amgylchedd lleol** |
|---|
| Trwy gydol hanes, mae llawer iawn o artistiaid, ffotograffwyr, dylunwyr a cherflunwyr wedi gwneud gwaith sy'n cofnodi ac yn dathlu tirweddau amrywiol Cymru ac maen nhw'n parhau i wneud hyn heddiw.  Mae eu gwaith yn aml yn pwysleisio agweddau dramatig ar awyrgylch, graddfa, tywydd a golau mewn amgylcheddau naturiol, diwydiannol neu drefol.<br><br>Gwnewch ymateb personol i'ch amgylchedd lleol sy'n dal potensial dramatig eich ardal. |

## 14.

| **Arbrofwch gydag arwynebau a haenau** |
|---|
| Mae paent, gwydreddau, enamelau, clai, metelau a defnyddiau eraill i gyd yn gallu cael eu rhoi ar arwyneb gwrthrych mewn haen denau, neu groen, at ddibenion addurnol ac ymarferol.  Mae'r technegau'n cynnwys torri i ffwrdd, engrafu, cerfio, sgraffito ac ysgythru, lle mae rhan o'r haen arwyneb yn cael ei thynnu i ffwrdd i greu effaith arbennig neu fel rhan o'r broses.<br><br>Ymchwiliwch i rai o'r technegau hyn ac arbrofwch gyda nhw i gynhyrchu eich gwaith celf, crefft neu ddylunio eich hun. |

## 15.

| **Dathlwch a hyrwyddwch weithgareddau antur** |
|---|
| Mae Cymru'n cynnig cyfleoedd penigamp i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus fel mynydda, dringo creigiau, fforio ogofâu, caiacio, brigdonni, heicio, cyfeiriannu, arfordira, beicio mynydd, ceunanta, rafftio dŵr gwyn, gwifrau gwib, ac ati.<br><br>Crëwch ddarn o waith sy'n dathlu neu'n hyrwyddo un o'r gweithgareddau hyn neu dyluniwch ddillad, llenyddiaeth neu gyfarpar ar gyfer gweithgarwch penodol gan roi ystyriaeth i swyddogaeth a/neu estheteg.  Er enghraifft, crysau T, dyluniadau gwe, posteri neu daflenni ar gyfer gweithgareddau neu leoedd, cyfarpar, arddangosfeydd gwybodaeth, yn ogystal â phaentiadau, cerfluniau a ffotograffau. |

© WJEC CBAC Ltd.

## Cyfeiriadau cyd-destunol

**O'r rhestr hon o artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, mae'n bosibl y dewch o hyd i fannau cychwyn defnyddiol ar gyfer eich ymchwil a'ch syniadau creadigol, yn ymwneud â'r Thema, Aseiniad Gweledol neu Friff Ysgrifenedig o'ch dewis.  Ond does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhestr hon ac mae'n bosibl y bydd yn well gennych ddewis eich cyfeiriadau priodol eich hun.**

### Artistiaid cain a gwneuthurwyr print:

Susan Austin, Paul Beauchamp, Peter Blake, Keith Bowen, Charles Burton, Evan Charlton, David Cox, Ogwyn Davies, Paul Davies, Tim Davies, Swci Delic, Emrys Edwards, Casper David Friedrich, David Garner, Tony Goble, Andy Goldsworthy, Amie Haslen, Harry Holland, James Dickson Innes, Augustus John, Gwen John, Mary Kelly, Michael Landy, Mary Lloyd Jones, John Macfarlane, Ishbel McWhirter, Kerry Morrison, Sigrid Muller, David Nash, Nika Neelova, Philip Nichol, Gareth Parry, John Petts, John Piper, Peter Prendergast, Ceri Richards, David Roberts, Kevin Sinnott, Anj Smith, Henry Tonks, JMW Turner, Andy Warhol, Bedwyr Williams, Richard Wilson, Lois Williams, Motoi Yamamoto neu Stephen Young.

### Dylunwyr graffig a darlunwyr:

Janet Ahlberg, Saul Bass, Marian Bantjes, Andre Bergamin, Benedict Blathwayt, Quentin Blake, Mark Bonner, Raymond Briggs, Neville Brody, David Carson, Paul Catherall, Lauren Child,Jean Charle, Caroline Church, Lucille Clerc, Michael Craig Martin, Elfen Design, Lola Dupre, Sara Fanelli, Alan Fletcher, Milton Glaser, Ernst Haeckel, Mairi Hedderwick, Sterling Hundley, David Juniper, Peter Kennard, Takahiro Kimura, Michael Landy, Emma Levey, Domenic Lippa, Lauren Mortimer, Ian Naylor, James Nunn, Linda Nye, Paul Priestman, Jamie Reid, Eberhard Reimann, Gerald Scarfe, Paula Scher, Karolin Schnoor, Maurice Sendak, Jim Sutherland, Tiafi Design or Jessica Walsh neu Xue Wawa.

### Dylunwyr tecstilau a ffasiwn:

Becky Adams, Jeanette Appleton, Piers Atkinson, Richard Box, Michael Brennand Wood, Caroline Broadhead, Cefn Burges, Claire Cawte, Alice Fox, Suzie Freeman, Marie-Jeanne Lecca, Valentino Garavani, Julia Griffiths-Jones, Guerrilla Crochet, Anya Hindmarch, Ray Holman, Cas Holmes, Iris Van Herpen, Nathan Jenden, Helen Jones, Stephen Jones, Christopher Kane, Kate Lambert, Sian Martin, Julien Macdonald, Alexander  McQueen, Sandra Meech, Eleri Mills, Alexandra Moura, Isobel Marant, Noki, Serena Partridge, Eleanor Pritchard, Prinkie Roberts, Jenny Rolfe, Carolyn Saxby, Emma J. Shipley, Debbie Smyth, Jenny Tiramani, Philip Treacy, Sophia Webster, Cynth Weyman, Matthew Williamson neu Jessica Zoob.

### Dylunwyr a gwneuthurwyr tri dimensiwn:

Jonathan Adams, Artichoke, Billy Adams, Celia Allen, Jan Beeny, Clare Collinson, Simon Costin, Wouter Dam, Lowri Davies, Richard Deacon, Tara Donovan, Ann Catrin Evans, Nora Fok, Lonneke Gordijn & Ralph Nauta, Christopher Guy, Carol Gwizdak, Zaha Hadid, Molly Hatch, Thomas Heatherwick, Joris Laarman Shaun Leane, Barkow Leibinger, Anna Lewis, Gillian Lowndes, Gordon Matta Clark, Jen Mills, Amanda Moffat, Ingrid Murphy,  Isamu Noguchi, Ted Noten, Magdalene Odundo, Margaret de Patta, , Handspring Design, Frank Roper, Jessica Rosenkrantz and Jesse Louis-Rosenberg, Paula Rylatt, Simon Starling, Studio Drift, Julie Taymor, Edmund de Waal, Hans Wegner, Meri Wells neu Fred Woell.

### Ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac animeiddwyr:

Ansel Adams, Eve Arnold, Richard Avedon, Frédéric Back, Mark Baker, Elina Brotherus, Arian Camilleri, Henri Cartier-Bresson, Larry Chait, Chen Chieh-Jen, Gerald Conn, Richard Condie, Nick Danziger, Chris Dorley-Brown, Michael Dudok de Wit, Naoya Hatakeyama, Aaron Huey, Karen Ingham, Jasper James, Dorothea Lange, Caroline Leaf, Annie Leibovitz, Joe Magee, Raffaela Mariniello, Norman McLaren, Don McCullin, Norman McGrath, Mathew Merrett, Hayao Miyazaki, Terry Morris, Mike Mort, Kenneth Onulak, Lyle Owerko, Martin Parr, Nick Park, Joanna Quinn, Michelle Sank, Helen Sear, Cindy Sherman, Jan Svankmajer, Gregory Thielker, Jerry Uelsmann, Levi Van Veluw, David Wilson neu Gillian Wearing.

© WJEC CBAC Ltd.

## Cynlluniau marcio

Sut i ddefnyddio'r cynlluniau marcio:

- Dylai'r band priodol **ar gyfer pob amcan asesu** gael ei bennu trwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid pennu'r marc priodol trwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**.
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y 4 amcan asesu adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, e.e. gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA2.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lef elau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.
- Dylai'r disgrifwyr perfformiad gael eu defnyddio yng nghyd-destun cymhwyster TGAU Celf a Dylunio a'r safonau perfformiad a ddisgwylir yng nghyswllt hynny. Dylai athrawon sicrhau bod eu gwaith marcio'n gywir a dibynadwy trwy ddefnyddio cynlluniau marcio TGAU CBAC sy'n briodol i uned 1 neu uned 2 a thrwy gyfeirio at y gwaith enghreifftiol sydd ar gael ar wefan CBAC.

**Cynllun Marcio ar gyfer TGAU CELF a DYLUNIO**
**UNED 1: Portffolio (Cyfanswm y Marciau = 120)**

| Band | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|
| | **Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.** | **Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol.** | **Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.** | **Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.** |
| **5** | **25 – 30 marc** | **25 – 30 marc** | **25 – 30 marc** | **25 – 30 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu mewn ffyrdd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chydlynol.<br><br>Dadansoddiad beirniadol craff a thrwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion hyderus ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol trylwyr ac arbrofi pwrpasol a chreadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli'n fedrus a'u defnyddio â dychymyg.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus craff a detholus yn cyfrannu'n gyson at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n soffistigedig trwy ymchwil ac ymholi helaeth a chydlynol sy'n hynod o berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd soffistigedig, gydlynol a hyderus.<br><br>Dangosir dealltwriaeth graff a thrylwyr o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol iawn. |
| **4** | **19 – 24 marc** | **19 – 24 marc** | **19 – 24 marc** | **19 – 24 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br><br>Dadansoddiad beirniadol trwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion pwrpasol ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol perthnasol ac arbrofi creadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n hyderus.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus effeithiol a thrylwyr yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n hyderus mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi effeithiol sy'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel dda o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb dychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd hyderus ac effeithiol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth dda o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **13 – 18 marc** | **13 – 18 marc** | **13 – 18 marc** | **13 – 18 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n weddol dda trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddiad beirniadol gweddol dda o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion boddhaol ac annibynnol ar y cyfan. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi perthnasol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n weddol dda.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus gweddol dda o archwiliadau yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n weddol dda mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd at ei gilydd yn berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio gweddol feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr ar y cyfan. | Ymateb gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth resymol o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n weddol dda. |
| **2** | **7 – 12 marc** | **7 – 12 marc** | **7 – 12 marc** | **7 – 12 marc** |
| | Ceir peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau rhannol ddwys.<br><br>Peth dadansoddi ffynonellau, sy'n cyfrannu'n rhannol at ymatebion sylfaenol. | Mae syniadau'n cael eu rhannol fireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi.<br><br>Mae peth ymgais i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Mae peth adolygu a gwerthuso parhaus yn cyfrannu'n rhannol at y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sylfaenol mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd weithiau'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir peth myfyrio ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sydd weithiau'n dangos dealltwriaeth ac ystyr. | Mae'r ymateb i ryw raddau'n bersonol ac ystyrlon a chaiff bwriadau eu gwireddu mewn ffordd sylfaenol.<br><br>Dangosir peth dealltwriaeth o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **1** | **1 – 6 marc** | **1 – 6 marc** | **1 – 6 marc** | **1 – 6 marc** |
| | Ceir datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br><br>Dadansoddiad cyfyngedig o ffynonellau nad ydynt wedi cael fawr ddim dylanwad ar ymatebion. | Ychydig iawn o fireinio ac archwilio syniadau.<br><br>Ymgais cyfyngedig i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Adolygu a gwerthuso parhaus cyfyngedig, sy'n cael fawr ddim dylanwad ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau cyfyngedig mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd â pherthnasedd cyfyngedig i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio cyfyngedig ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr cyfyngedig. | Ymateb personol cyfyngedig, gydag ychydig iawn o ymdrech i ddangos ystyr, sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Dangosir dealltwriaeth gyfyngedig o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **0** | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |

© WJEC CBAC Ltd.

Sut i ddefnyddio'r cynlluniau marcio:

- Dylai'r band priodol **ar gyfer pob amcan asesu** gael ei bennu trwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid pennu'r marc priodol trwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**.
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y 4 amcan asesu adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, e.e. gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA2.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lefelau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.
- Dylai'r disgrifwyr perfformiad gael eu defnyddio yng nghyd-destun cymhwyster TGAU Celf a Dylunio a'r safonau perfformiad a ddisgwylir yng nghyswllt hynny. Dylai athrawon sicrhau bod eu gwaith marcio'n gywir a dibynadwy trwy ddefnyddio cynlluniau marcio TGAU CBAC sy'n briodol i uned 1 neu uned 2 a thrwy gyfeirio at y gwaith enghreifftiol sydd ar gael ar wefan CBAC.

## Cynllun Marcio ar gyfer TGAU CELF a DYLUNIO
## UNED 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Cyfanswm y Marciau = 80)

| Band | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|
| | **Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.** | **Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol.** | **Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.** | **Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.** |
| **5** | **17 – 20 marc** | **17 – 20 marc** | **17 – 20 marc** | **17 – 20 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu mewn ffyrdd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chydlynol.<br><br>Dadansoddiad beirniadol craff a thrwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion hyderus ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol trylwyr ac arbrofi pwrpasol a chreadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli'n fedrus a'u defnyddio â dychymyg.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus craff a detholus yn cyfrannu'n gyson at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n soffistigedig trwy ymchwil ac ymholi helaeth a chydlynol sy'n hynod o berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd soffistigedig, gydlynol a hyderus.<br><br>Dangosir dealltwriaeth graff a thrylwyr o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol iawn. |
| **4** | **13 – 16 marc** | **13 – 16 marc** | **13 – 16 marc** | **13 – 16 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br><br>Dadansoddiad beirniadol trwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion pwrpasol ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol perthnasol ac arbrofi creadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n hyderus.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus effeithiol a thrylwyr yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n hyderus mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi effeithiol sy'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel dda o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb dychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd hyderus ac effeithiol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth dda o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **9 – 12 marc** | **9 – 12 marc** | **9 – 12 marc** | **9 – 12 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n weddol dda trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddiad beirniadol gweddol dda o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion boddhaol ac annibynnol ar y cyfan. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi perthnasol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n weddol dda.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus gweddol dda o archwiliadau yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n weddol dda mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd at ei gilydd yn berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio gweddol feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr ar y cyfan. | Ymateb gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth resymol o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n weddol dda. |
| **2** | **5 – 8 marc** | **5 – 8 marc** | **5 – 8 marc** | **5 – 8 marc** |
| | Ceir peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau rhannol ddwys.<br><br>Peth dadansoddi ffynonellau, sy'n cyfrannu'n rhannol at ymatebion sylfaenol. | Mae syniadau'n cael eu rhannol fireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi.<br><br>Mae peth ymgais i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Mae peth adolygu a gwerthuso parhaus yn cyfrannu'n rhannol at y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sylfaenol mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd weithiau'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir peth myfyrio ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sydd weithiau'n dangos dealltwriaeth ac ystyr. | Mae'r ymateb i ryw raddau'n bersonol ac ystyrlon a chaiff bwriadau eu gwireddu mewn ffordd sylfaenol.<br><br>Dangosir peth dealltwriaeth o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **1** | **1 – 4 marc** | **1 – 4 marc** | **1 – 4 marc** | **1 – 4 marc** |
| | Ceir datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br><br>Dadansoddiad cyfyngedig o ffynonellau nad ydynt wedi cael fawr ddim dylanwad ar ymatebion. | Ychydig iawn o fireinio ac archwilio syniadau.<br><br>Ymgais cyfyngedig i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Adolygu a gwerthuso parhaus cyfyngedig, sy'n cael fawr ddim dylanwad ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau cyfyngedig mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd â pherthnasedd cyfyngedig i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio cyfyngedig ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr cyfyngedig. | Ymateb personol cyfyngedig, gydag ychydig iawn o ymdrech i ddangos ystyr, ac sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Dangosir dealltwriaeth gyfyngedig o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **0** | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |

© WJEC CBAC Ltd.

# Cynnwys a Awgrymir ar gyfer pobl teitl (Unedau 1 a 2)

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Mae'r teitl hwn yn cynnig cwrs eang ei sylfaen a luniwyd i hyrwyddo dysgu ar draws amrywiaeth o brofiadau. Gall amrywiaeth ddiderfyn bron o dechnegau, prosesau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu, gael eu defnyddio mewn ***Celf, Crefft a Dylunio***, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau bod profiadau dysgu'n weddol ddwfn yn ogystal ag eang. Gellir defnyddio amrywiaeth eang o brosesau, offer, technegau, defnyddiau ac adnoddau i greu arteffactau o un math neu'i gilydd ac i gynhyrchu tystiolaeth amrywiol o ddulliau gweithio a chanlyniadau. Mae'r pwyslais ar ymagwedd fwy *eang* sy'n gymesur o ran galw â *dyfnder* y dysgu sydd ei angen yn y teitlau mwy arbenigol. Mae *Celf, Crefft a Dylunio* yn wahanol i'r teitlau eraill yn gymaint â bod myfyrwyr yn gallu archwilio diddordebau personol a dangos eu galluoedd ar draws cwrs astudio eang.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celf, crefft a dylunio fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Dylai myfyrwyr archwilio meysydd celf, crefft a dylunio ymarferol a chyd-destunol detholedig trwy gyfrwng amrywiaeth o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer celf, crefft a dylunio, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r teitlau arbenigol Celfyddyd Gain, Cyfathrebu Graffig, Dylunio Tecstilau, Dylunio Tri Dimensiwn neu Ffotograffiaeth, a meysydd astudio sy'n berthnasol i'r rhain.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Celf, Crefft a Dylunio* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r meysydd astudio o'u dewis yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celf, crefft a dylunio a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys cymwysiadau mwy ymarferol ffurfiau celf, crefft a dylunio.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang a defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion yn y broses o ddylunio a chynhyrchu darnau ceramig, neu ddefnyddio tôn neu liw yn fanwl gywir, neu sefydlu perthnasoedd rhwng teipograffeg a delweddau.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu, gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio, taflenni astudio a/neu ar lechi cyfrifiadurol neu ddulliau eraill, i gefnogi bwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron
- Ystyried cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. Er enghraifft, addasu ffurf geramig ar raddfa fach yn ddyluniad ar gyfer celfyddyd dir.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa. Er enghraifft, gellid defnyddio delweddau a thestun i ddangos sut y gallai syniad cychwynnol ar gyfer darn o gelfyddyd gain gael ei ddatblygu'n boster ar gyfer gŵyl gerdd.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Diffinnir ***Celfyddyd Gain*** yma fel yr agwedd honno ar gelf, crefft a dylunio lle y mae gwaith yn cael ei ddatblygu'n bennaf at bwrpasau esthetig, deallusol neu gysyniadol yn hytrach na rhai gweithredol ac ymarferol. Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith artistiaid cain hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celfyddyd gain fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hun. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis megis: peintio (amrywiol gyfryngau); lluniadu (amrywiol gyfryngau); argraffu (e.e. printio sgrin; ysgythru; acwatint; lithograffi; printio bloc); stensiliau; cerfio; modelu; adeiladu; mosaig; symudion; celfyddyd amgylcheddol; sgraffito; cyfryngau cinetig; cyfryngau golau-seiliedig; cyfryngau digidol; cyfryngau cymysg. Maes astudio eang a datblygol yw hwn sydd hefyd yn cynnwys celfyddyd berfformiad a chysyniadol, yn ogystal ag agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm

Mae ***Celfyddyd Gain*** yn cynnig dewis o gyfryngau a phrosesau traddodiadol a digidol ac yn ymwneud â defnydd mynegiannol o amrywiaeth arbennig o eang o dechnegau, sgiliau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer celfyddyd gain cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel ffilm, cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, amgueddfeydd ac orielau, celfyddydau cymunedol, ac addysgu, a phob galwedigaeth sy'n gysylltiedig â'r teitl hwn.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Celfyddyd Gain* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelfyddyd gain hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, drama, dylunio ar gyfer cynyrchiadau, a chyfryngau cyhoeddedig, a lle celfyddyd gain o fewn y rhain yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid cain a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaethau rhwng cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth celfyddyd gain a chymwysiadau mwy ymarferol y ffurfiau celf, crefft a dylunio hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau a phrosesau celfyddyd gain priodol o eang, yn unigol a chyda'i gilydd. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion celfyddyd gain, gan gynnwys lluniadu fel diben ynddo'i hun. Defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion neu wrth ddefnyddio lliwiau a thonau manwl gywir neu ormodol.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu, gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio, taflenni astudio a/neu ar lechi cyfrifiadurol neu ddulliau eraill, i gefnogi bwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon uchel.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa. Er enghraifft, gellid defnyddio lluniadau rhagarweiniol, ffotograffau a nodiadau i ddangos sut y gallai dilyniant o ddelweddau o flodyn o flaguro i wywo gael ei ddatblygu'n driptych peintiedig.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Diffinnir ***Cyfathrebu Graffig*** yma fel y broses o greu deunydd sy'n weledol yn bennaf i gyfleu gwybodaeth, syniadau ac emosiynau trwy ddefnyddio elfennau graffig megis symbolau, diagramau, lluniadau, ffotograffau, mapiau a theipograffeg. Mae'r dewis hwn yn cwmpasu maes astudio eang a datblygol, sy'n cynnwys amrywiaeth o ddisgyblaethau cysylltiedig ac yn defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffeg a llythrennu â llaw, ynghyd â'r technolegau digidol diweddaraf. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau fel dylunio trwy gymorth cyfrifiadur; dylunio gwe; dylunio apps a gemau; ffurfiau llythrennau; teipograffeg; lluniadu; darlunio technegol; darlunio ar gyfer llyfrau; dylunio ar gyfer print; ffilmiau adnabod sianeli teledu (*TV idents*); dilyniannau teitl ar gyfer ffilmiau; ffotograffiaeth, a dylunio pecynnau yn rhoi amcan o'r hyn y gellid ymdrin ag ef yn y dewis hwn.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith dylunwyr graffig hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau cyfathrebu graffig fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hun. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis. Gall y gwaith terfynol fod mewn dau neu dri dimensiwn neu'n seiliedig ar amser, a gall fod ar ffurf posteri, taflenni, hysbyslenni, cloriau CDau/DVDau, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnau/defnydd pacio, deunyddiau cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, logos hysbysebu, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, deunyddiau clyweled (e.e. graffigau seiliedig ar amser a graffigau animeiddiedig), pwyntiau talu tri dimension, a dyluniadau arddangosfa.

Bydd dylunwyr yn aml yn cyfuno delweddau a ffurfiau llythrennau / teip i gyfleu neges cleient i gynulleidfa ac i archwilio posibiliadau creadigol cyfuno geiriau a delweddau. Yn ogystal â darganfod neu greu ffurfiau llythrennau a delweddau priodol, tasg y dylunydd yw penderfynu ar y cydbwysedd gorau rhyngddynt.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd megis darlunio cyffredinol, teipograffeg, hunaniaeth gorfforaethol ac ymgynghori ar frandio, graffeg gwybodaeth, delweddaeth wedi'i chynhyrchu gan gyfrifiadur, animeiddio 2D, modelu 3D, dylunio ar gyfer dysgu, technoleg print, dylunio gwe, a gemau teledu, fideo a chyfrifiadur.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Cyfathrebu Graffig* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gyfathrebu graffig hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r meysydd astudio o'u dewis yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan gyfathrebwyr graffig a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol, strategaethau marchnata, ymgyrchoedd hyrwyddo, a dylunio ar gyfer print a'r we.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith cyfathrebwyr graffig perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau cyfathrebu graffig a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gydag amrywiaeth briodol o eang o ddulliau a phrosesau cyfathrebu graffig, gan gynnwys trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion cyfathrebu graffig, gan gynnwys lluniadu fel dull o archwilio a chyfleu syniadau. Defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion, megis dewis ffontiau, y berthynas rhwng teipograffeg a delweddau, ac adnabod prosesau reprograffig addas.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis lluniadau gosodiad, brasluniau bawd, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol ac yn eu cefnogi.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr, yn cyflawni unrhyw friff dylunio, ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon uchel.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gellid defnyddio PowerPoint i gyflwyno gwahanol syniadau, gan ddangos gosodiadau, cyfresi lliw a ffurfdeipiau posibl yn ogystal â sut y gallai byrddau poster mawr edrych mewn lleoliadau penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Diffinnir ***Dylunio Tecstilau*** yma fel creu dyluniadau a chynhyrchion ar gyfer ffabrigau wedi'u gwehyddu, eu gwau, eu pwytho neu eu printio. Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol, megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tecstilau hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tecstilau fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Mae cysylltiadau agos rhwng dulliau wedi'u hadeiladu, wedi'u haddurno, wedi'u printio, wedi'u gwnïo ac wedi'u lliwio mewn dylunio tecstilau a chyda dylunio ffasiwn a thecstilau wedi'u gosod. Gellid ystyried cyfleoedd rhyngddisgyblaethol yn ogystal â datblygu arbenigaeth mewn un maes.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio a ddewisir megis: gwehyddu, printio arwyneb (bloc, sgrin neu ddigidol), gwneud patrymau, torri patrymau, brodwaith (â pheiriant neu â llaw), gwau, batic, cerflunwaith meddal, *appliqué* a *collage*.

Mae ***Dylunio Tecstilau*** yn cwmpasu dewis eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys defnyddiau y gellir eu hailgylchu a nifer cynyddol o ymagweddau rhyngddisgyblaethol. Mae'r dewis yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd gael eu datblygu, er enghraifft, ym maes 'tecstilau deallus'.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau fel y canlynol: dylunydd tecstilau, prynwr tecstilau, dylunydd ffasiwn, proffwydi ffasiwn, dylunydd gweuwaith, hetiwr, newyddiadurwr ffasiwn, ymgynghorydd lliw, dylunydd gwisgoedd theatraidd, darlunydd ffasiwn, torrwr patrymau a dylunydd-gwneuthurwr.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Dylunio Tecstilau* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, celfyddyd gain a chrefftau megis gemwaith.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ddylunwyr tecstil a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol, diwylliannol, esthetig ac ymarferol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ym maes dylunio tecstilau a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys y perthnasoedd rhwng ystyriaethau swyddogaethol, esthetig, arddulliol a thechnolegol a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda dulliau a phrosesau dylunio tecstilau priodol o eang, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ddylunio tecstilau, gan gynnwys lluniadu. Defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion, megis dylunio a chynhyrchu patrymau arwyneb neu nodweddion addurnol.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis brasluniau, darluniau, astudiaethau brodwaith braich rydd, darnau prawf a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, dylunio gwisgoedd sydd i gael eu gwneud o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu ar gyfer perfformiad ysgol.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon uchel.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, llenni wedi'u sgrin-brintio ar gyfer ystafell wely plentyn bach.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Diffinnir ***Dylunio Tri Dimensiwn*** yma fel dylunio, prototeipio, modelu neu wneud cynhyrchion traul, gwrthrychau ac amgylcheddau sydd yn anad dim yn swyddogaethol ac esthetig. Gallai hyn gynnwys ffurfiau cerfluniol safle-benodol sy'n cael eu gwneud i fodloni briff dylunio.

Bwriedir dyluniadau tri dimensiwn ar gyfer masgynhyrchu neu swp-gynhyrchu yn aml. Anaml y bydd y graddfeydd cynhyrchu hyn yn bosibl mewn ysgol neu goleg bach felly bydd y gwaith fel arfer yn ymwneud â datrys problemau ar lefel fwy unigol. Gall sgiliau trin a thrafod a dealltwriaeth o weithgynhyrchu gael eu meithrin drwy wneud defnydd priodol o offer a defnyddiau. Gall gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu meithrin trwy fod yn ymwybodol o ystyriaethau economaidd, cynllunio ar gyfer cynhyrchu, cyflwyniad, cryfder adeileddau ac ymwybyddiaeth amgylcheddol

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tri dimensiwn fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Dylai'r myfyrwyr amlygu'r gallu i weithio'n greadigol â phrosesau, technegau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu, sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis megis: cynllunio trwy gymorth cyfrifiadur; gwneud modelau; prototeipio; adeiladu; cydosod. Mae dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffurf a swyddogaeth yn hanfodol.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau megis dylunydd diwydiannol/cynhyrchion, dylunydd theatr, dylunydd teledu a ffilm, dylunydd arddangosfeydd, dylunydd defnyddiau pacio/pecynnau, dylunydd dodrefn, dylunydd mewnol, ceramegydd, gwneuthurwr modelau pensaernïol, gof arian a gemydd.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Dylunio Tri Dimensiwn* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

### AA1

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ddylunio tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith crefftwyr sy'n gweithio gyda phren neu fetel.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ddylunwyr tri dimensiwn a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ym maes dylunio tri dimensiwn a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys y perthnasoedd rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda defnyddiau a phrosesau dylunio tri dimensiwn priodol o eang, gan gynnwys pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur a, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ddylunio tri dimensiwn. Defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion ac mewn perthynas ag agweddau ymarferol ac ystyriaethau ergonomig ac esthetig.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis brasluniau, diagramau, lluniadau technegol a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, cynhyrchu dyluniadau a model ar gyfer cyfarpar chwarae i iard chwarae plant mewn parc lleol neu lecyn agored.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon uchel.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr wneud model wrth raddfa o set ffilm neu set theatr neu ddarn unigryw o emwaith.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Diffinnir ***Ffotograffiaeth*** yma fel yr arfer o greu delweddau statig neu symudol hirbarhaol trwy gofnodi golau â defnyddiau sensitif i olau fel ffilm ffotograffig neu'n ddigidol trwy ddefnyddio synhwyrydd delweddau. Mae'n cynnwys ffotograffiaeth lonydd a chyfryngau lens-seiliedig eraill.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith ffotograffwyr hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau ffotograffiaeth fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Defnyddir ffotograffiaeth a chyfryngau golau- a lens-seiliedig eraill yn aml i ddogfennu, cofnodi a darparu ffynhonnell gwybodaeth weledol ar gyfer meysydd astudio eraill. Mewn adran draddodiadol rhaid gallu cyrchu cyfarpar neilltuol ac arbenigol megis camerâu, chwyddwyr a sychyddion a gall fod angen defnyddio cemegion a phrosesau ystafell dywyll. Fel arall, neu'n ogystal, gall ofyn am galedwedd gyfrifiadurol arbenigol, argraffyddion a meddalwedd neu'r hyn a elwir yn fwy cyffredin erbyn hyn yn 'ystafell dywyll ddigidol'. Rhaid i fyfyrwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol â phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis, er enghraifft, ffotogramau; camerâu pindwll; prosesau ffilm (cemegol); prosesau digidol; ffotograffiaeth egwyl-amser; animeiddio stop-ffrâm; gosodwaith; ffilm; fideo; animeiddio; *montage* ffotograffig; trin delweddau'n ddigidol. Gall y gwaith terfynol fod yn seiliedig ar sgrin neu brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel hysbysebu, ffotonewyddiaduraeth, ffasiwn, bywyd gwyllt, ffotograffiaeth ddiwydiannol a thechnegol, stiwdios ffotograffiaeth ar y stryd fawr, a ffilm, teledu a fideo.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Ffotograffiaeth* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ffotograffiaeth a delweddaeth lens-seiliedig hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith ffotonewyddiadurwyr a gwneuthurwyr ffilmiau.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac artistiaid fideo a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac artistiaid fideo perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ffotograffig, lens-seiliedig a golau-seiliedig a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys sut y caiff *genres* gwahanol eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gan wneud defnydd rheoledig o olau, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ffotograffiaeth a chyfryngau lens-seiliedig eraill. Defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio prosesau digidol a/neu gemegol, cyfansoddiad, neu'r defnydd o olau.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy ffotograffiaeth ac unrhyw ddulliau addas eraill, megis brasluniau, diagramau, byrddau stori, gosodiadau tudalen a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'n effeithiol yr hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gallai myfyrwyr ail-ddehongli paentiadau bywyd llonydd o 'Oes Aur' yr Iseldiroedd yn yr 17eg ganrif trwy osod testunau i fyny yn y stiwdio sy'n cyfateb iddynt ond sy'n berthnasol i'r 21ain ganrif.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon uchel.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr gynhyrchu sioe sleidiau (ynghyd â thestun priodol) yn dogfennu delweddau o rannau o'r amgylchedd lleol sydd wedi'u hesgeuluso fel ffordd o ddechrau ymgyrch i wella'r gymuned.

© WJEC CBAC Ltd.

# Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.)*

Diffinnir ***Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol*** yma fel dadansoddi'n feirniadol, dehongli a gwerthuso'n fyfyriol, o safbwynt cyfoes, waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o'n cyfnod ni a chyfnodau eraill, ac o'n lle ni a lleoedd eraill. Dylid pwysleisio bod y dewis hwn yn wahanol i ymagweddau traddodiadol at hanes celf. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn derm arall am Hanes Celf a Dylunio. Mae gofyn i'r myfyrwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn ddangos y gallu i ddadansoddi'n feirniadol a dehongli gweithiau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, gan gymryd i ystyriaeth wahanol gyd-destunau (e.e. hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol) eu cynhyrchu, er mwyn deall ystyron, pwrpasau, perthnasoedd a dylanwadau. Dylai myfyrwyr ddewis dulliau a chyfryngau priodol i gyfleu eu hymatebion ac i ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu i weithio'n greadigol gyda'r topigau o'u dewis trwy ymdrin â rhai, neu'r rhan fwyaf, o'r agweddau canlynol:

- deall arteffactau a delweddau fel cynhyrchion neilltuol cymdeithas mewn amser a lle;
- ymchwilio i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, mudiadau, arddulliau ac enghreifftiau o waith;
- astudio cyd-destunau a chyfeiriadau cymdeithasol, hanesyddol, gwleidyddol a diwylliannol;
- ymweld ag amgueddfeydd, orielau, stiwdios, unigolion;
- arfer barn feirniadol;
- astudio cyfnodau neu faterion hanesyddol penodol.

Dylai'r teitl hwn ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol trwy strategaethau bywiog a chreadigol ar gyfer datblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gall y rhain gynnwys amrywiaeth fawr o ganlyniadau ymarferol anodedig sy'n amlygu dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist neu ddylunydd penodol, mudiad neu thema. Gallai canlyniadau o'r fath gynnwys cyflwyniadau clyweled, cyfweliadau (go iawn neu ddychmygol) gydag artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr sy'n cael eu hadysgrifio a'u darlunio, gwaith ymarferol wedi'i ysbrydoli'n uniongyrchol gan artist neilltuol a'i ail-ddehongli, neu feirniadaeth ar arddangosfa yn sgil ymweliad ag oriel neu stiwdio.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau megis curaduriaid neu gadwraethwyr mewn orielau, amgueddfeydd a chanolfannau'r celfyddydau, yn ogystal â newyddiadurwyr, athrawon ac academyddion.

**Fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer *Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol* dylai myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

© WJEC CBAC Ltd.

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith, (nid gwaith artistiaid cain yn unig), a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o *genres*, mudiadau, cyd-destunau, arddulliau ac arferion celf, crefft a dylunio a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

**AA2**

- Dewis ac archwilio'n bwrpasol amrywiaeth ddigonol a phriodol o eang o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau, topigau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, mudiadau ac arddulliau, a ffyrdd y mae syniadau, agweddau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i sut mae llinell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill wedi cael eu defnyddio gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr. Pryd bynnag y bo modd, dylid ymweld â ffynonellau cynradd megis orielau, amgueddfeydd, stiwdios a gweithdai artistiaid, crefftwyr a dylunwyr i ddod wyneb yn wyneb ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau creadigol a'r bobl sydd wedi'u gwneud.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o'r topigau a ddewiswyd. Defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio prosesau i gynhyrchu canlyniadau o safon sy'n dangos ôl meddwl gofalus.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas waith glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau trwy ddogfennu camau pwysig i sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy ffotograffiaeth ac unrhyw ddulliau addas eraill, megis lluniadu, peintio, nodiadau ysgrifenedig a recordiadau sain a/neu fideo sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'n effeithiol yr hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Er enghraifft, darganfod ac ymweld â'r lleoedd y mae arlunydd tirluniau lleol wedi mynd iddynt i beintio ei luniau ac ail-ddehongli ei waith trwy weithio o ddelweddau (brasluniau a ffotograffau) sy'n cael eu gwneud yn yr un lleoedd.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gallai myfyrwyr wneud astudiaeth o ddetholiad o hunanbortreadau, o Rembrandt i'r presennol, gan roi sylw i Picasso, Kahlo, Warhol a Hockney, a dangos sut y gallai'r rhain fod wedi cael eu defnyddio ganddynt i'w hyrwyddo eu hunain. Creu delwedd ohonoch chi eich hun (lluniad, paentiad, ffotograff, hunlun, ac ati) sydd â phwrpas cyffelyb ac sy'n dangos eich diddordebau.
- Gwneud cysylltiadau eglur, lle y bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon uchel.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gyflwynir. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa. Er enghraifft, ysgrifennu a darlunio llyfr ar anifeiliaid mewn celfyddyd i blant ifanc.

© WJEC CBAC Ltd.

## DOGFENNAU ASESU

### Dilysu a 'Fy Natganiad Creadigol'

Rhaid cynnwys dogfen ddilysu a 'Fy Natganiad Creadigol' briodol gyda gwaith pob ymgeisydd, ar gyfer Uned 1 (Portffolio) ac ar gyfer Uned 2 (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol).

Ceir enghreifftiau o'r ffurflenni hyn yn Atodiad A.

### Rhestri Gwirio ar gyfer yr Amcanion Asesu

Darperir 'Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr' i helpu myfyrwyr ac athrawon i sicrhau eu bod wedi darparu tystiolaeth i fodloni'r holl amcanion asesu ar gyfer y ddwy uned.

Ceir enghraifft o'r rhestr wirio hon yn Atodiad B.

### Taflenni Marciau Ymgeiswyr

Mae Taflenni Marciau Ymgeiswyr ar gael ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd.

**ATODIAD A**

# TGAU
# CELF a DYLUNIO
# UNED 1: PORTFFOLIO

## DOGFEN DDILYSU
**RHAID LLENWI'R FFURFLEN HON**

**I'W LLENWI GAN Y MYFYRIWR**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Ganolfan | | Rhif y Ganolfan | |
| Enw'r Ymgeisydd | | Rhif yr Ymgeisydd | 2 |
| Opsiwn rydych wedi cofrestru ar ei gyfer | | | |

**Rwyf yn datgan mai fi sydd wedi gwneud yr holl waith hwn a fy mod i wedi cydnabod fy holl ffynonellau eilaidd.**

**Llofnod** ______________________ **Dyddiad** ______________________

# FY NATGANIAD CREADIGOL
## RHAID LLENWI'R ADRAN HON

Cwblhewch y datganiad hwn a'i gyflwyno gyda'ch gwaith, gan ei bod hi'n bosibl y bydd yn fuddiol i'r broses safoni, ac oherwydd y cyfeirir ato pan gaiff eich gwaith ei asesu (ehangwch y blychau isod os oes angen).

**I roi eich cyflwyniad mewn cyd-destun addas, defnyddiwch y templed isod i:**

Esbonio'r **PRIF SYNIAD** ar gyfer yr aseiniad hwn

© WJEC CBAC Ltd.

| Disgrifio **CYD-DESTUN** (dylanwadau, pwrpasau ac ystyron) eich gwaith |
|---|
| |
| **MYFYRIO** yn feirniadol ar eich gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen ac ar ôl ei gwblhau |
| |

## DOGFEN DDILYSU

### RHAID LLENWI'R ADRAN HON

**I'W LLENWI GAN YR ATHRO/ATHRAWES**

Eithriadau dilysu: eglurwch unrhyw amgylchiadau y dylid eu hystyried sy'n ymwneud â dewis a chyflwyno'r gwaith hwn fel gwaith yr ymgeisydd ei hun:

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

**Llofnod** ______________________________ **Dyddiad** ______________________________

© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU
# CELF a DYLUNIO
# UNED 2:
# ASEINIAD WEDI'I OSOD YN ALLANOL

## DOGFEN DDILYSU
**RHAID LLENWI'R FFURFLEN HON**

**I'W LLENWI GAN Y MYFYRIWR**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Ganolfan | | Rhif y Ganolfan | |
| Enw'r Ymgeisydd | | Rhif yr Ymgeisydd | 2 |
| Opsiwn rydych wedi cofrestru ar ei gyfer | | | |

**Rwyf yn datgan mai fi sydd wedi gwneud yr holl waith hwn a fy mod i wedi cydnabod fy holl ffynonellau eilaidd.**

**Llofnod** ______________________ **Dyddiad** ______________________

## FY NATGANIAD CREADIGOL
**RHAID LLENWI'R ADRAN HON**

Cwblhewch y datganiad hwn a'i gyflwyno gyda'ch gwaith, gan ei bod hi'n bosibl y bydd yn fuddiol i'r broses safoni, ac oherwydd y cyfeirir ato pan gaiff eich gwaith ei asesu (ehangwch y blychau isod os oes angen).

**I roi eich cyflwyniad mewn cyd-destun addas, defnyddiwch y templed isod i:**

Esbonio'r **PRIF SYNIAD** ar gyfer yr aseiniad hwn

© WJEC CBAC Ltd.

| Disgrifio **CYD-DESTUN** (dylanwadau, pwrpasau ac ystyron) eich gwaith |
|---|
| |
| **MYFYRIO** yn feirniadol ar eich gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen ac ar ôl ei gwblhau |
| |

## DOGFEN DDILYSU

### RHAID LLENWI'R ADRAN HON

**I'W LLENWI GAN YR ATHRO/ATHRAWES**

Eithriadau dilysu: eglurwch unrhyw amgylchiadau y dylid eu hystyried sy'n ymwneud â dewis a chyflwyno'r gwaith hwn fel gwaith yr ymgeisydd ei hun:

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

**Llofnod** ______________________________ **Dyddiad** ______________________________

© WJEC CBAC Ltd.

ATODIAD B
# TGAU
# CELF a DYLUNIO

## RHESTR WIRIO AMCANION ASESU I FYFYRWYR
### UNED 1 PORTFFOLIO / UNED 2 ASEINIAD WEDI'I OSOD YN ALLANOL

**Cyngor ar ysgrifennu:** Dylech gofnodi eich syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a barnau annibynnol trwy gyfrwng sylwebaeth ysgrifenedig yn ogystal ag yn weledol. Cewch ddefnyddio anodi neu ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu i ddangos sut rydych chi wedi bodloni unrhyw un o'r amcanion asesu neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Dylai eich dull ysgrifennu fod yn addas i'r pwrpas, darllenadwy, clir a rhesymegol. Dylech ddefnyddio geirfa arbenigol pan fo'n briodol.

| AMCANION ASESU | Darparwch dystiolaeth sy'n dangos eich bod chi wedi: | √ neu x |
|---|---|---|
| **AA1**<br>**Dealltwriaeth Feirniadol**<br><br>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau. | Ymchwilio i waith **artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill** yn ogystal â ffynonellau eraill ac wedi defnyddio eich ymchwil i **ddatblygu amrywiaeth** o syniadau. | |
| | Dogfennu eich barnau a'ch safbwyntiau **eich hun** am waith pobl eraill. | |
| | Datblygu eich syniadau trwy ymchwiliadau **dwys, manwl a chydlynol**, gan ddangos **dealltwriaeth** glir o'ch ffynonellau a'u perthnasedd i'ch syniadau chi. | |
| **AA2**<br>**Gwneud Creadigol**<br><br>Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. | **Archwilio** a **mireinio** eich syniadau yn ystod pob cam datblygu. | |
| | Gallu dewis ac **arbrofi** gydag **amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau er mwyn symud eich gwaith yn ei flaen**. | |
| | Trin defnyddiau a phrosesau'n **fedrus** a diogel i gynhyrchu canlyniadau **o safon uchel**. | |
| | Adolygu eich gwaith i **wella** ei ansawdd wrth iddo fynd yn ei flaen. | |
| **AA3**<br>**Cofnodi Myfyriol**<br><br>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. | Defnyddio dulliau **addas ac amrywiol** i **gofnodi** syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau, o ffynonellau **uniongyrchol** os oedd modd yn hytrach na rhai eilaidd. | |
| | Dangos bod eich ymchwil ac ymholi wedi bod yn **berthnasol i'ch bwriadau** personol. | |
| | Trefnu eich syniadau a'u cyfleu'n **glir** wrth iddynt **ddatblygu** o'ch ymchwil, gan fyfyrio ar eich gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | |
| **AA4**<br>**Cyflwyno Personol**<br><br>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol. | Cyflwyno eich syniadau a chanlyniadau **dychmygus eich hun**. | |
| | Dangos y prosesau rydych chi wedi **gwireddu** eich **bwriadau** trwyddynt. | |
| | Gwneud **cysylltiadau eglur** rhwng gwahanol rannau eich gwaith, gan gynnwys gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill, fel ei fod yn ystyrlon ac mewn trefn hawdd ei dilyn. | |
| | Meddwl yn ofalus am **ddewis** a **chyflwyno** eich gwaith terfynol. | |



© WJEC CBAC Ltd.